Estyn

Mawrth 2022



# Gwaith ymgysylltu

## Diweddariad am y sectorau addysg bellach a dysgu oedolion yn y gymuned – hydref 2021

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r canfyddiadau o ymweliadau a galwadau arolygwyr cyswllt a wnaed â’r holl golegau addysg bellach, a’r rhan fwyaf o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2021. Mae’r adroddiad hwn wedi’i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ar-lein gydag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol a grwpiau bach o ddysgwyr.

# Cynnwys


**Crynodeb** **1**

**Canfyddiadau manwl** **2**

Ymweliadau cyswllt addysg bellach: Medi – Rhagfyr 2021 2

Ymweliadau cyswllt a galwadau ar-lein partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned: Hydref – Rhagfyr 2021 10








# Crynodeb

**Bu rhai newidiadau sylweddol o ran niferoedd a phatrymau cofrestru ar draws y sectorau eleni. Mewn addysg bellach, trwy ryddhau graddau TGAU yn gynharach, galluogwyd colegau i ddechrau cofrestru yn gynharach na blynyddoedd blaenorol, gyda'r mwyafrif yn digwydd ar-lein. Adroddodd colegau am gynnydd yn nifer y dysgwyr yn dewis dilyn prentisiaethau, yn enwedig mewn peirianneg ac adeiladu. Bu gostyngiad yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cyrsiau amser llawn a rhan-amser yn y rhan fwyaf o golegau ym mis Medi 2021, yn enwedig ar raglenni galwedigaethol fel iechyd a gofal cymdeithasol, busnes, a theithio, twristiaeth a chwaraeon. Mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, adroddodd bron pob un o'r darparwyr am gynnydd mewn cofrestriadau eleni o gymharu â 2020, ond bod niferoedd islaw lefelau cyn y pandemig o hyd**

Mae dychwelyd i ddysgu yn y sectorau wedi amrywio hefyd. Mae trefniadau ar gyfer dechrau yn y coleg o fis Medi wedi dilyn dull hybrid gyda chyfuniad o weithgareddau ymsefydlu ar-lein ac wyneb yn wyneb. Trefnodd colegau ddyddiadau dechrau amrywiol i reoli'r niferoedd yn dychwelyd i'r campws a lleihau gorbryder ar gyfer dysgwyr yn dychwelyd i golegau. Ers dechrau mis Medi, mae colegau wedi symud y rhan fwyaf o'u darpariaeth i gyflwyno ar y safle. Yn y sector dysgu oedolion, bu amrywiad sylweddol yn y dull a ddefnyddiwyd gan bartneriaethau i ailagor canolfannau ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb. Mewn ychydig o bartneriaethau, mae bron yr holl gyflwyno yn digwydd ar-lein, ond mewn partneriaethau eraill, mae'r rhan fwyaf o'r dysgu yn digwydd wyneb yn wyneb mewn canolfannau. Pan mae partneriaethau'n defnyddio lleoliadau a berchnogir gan drydydd parti, fel canolfannau cymunedol, maent wedi adrodd am anawsterau yn dychwelyd i addysgu a dysgu wyneb yn wyneb. Agorodd ychydig iawn o bartneriaethau ganolfannau dysgu i ddarparu elfennau ymarferol o ddosbarthiadau na ellid eu cyflwyno ar-lein. Mae'r ddau sector yn cynnig rhywfaint o'u darpariaeth ar-lein, ac mae hyfforddiant staff wedi symud tuag at wella strategaethau addysgu a dysgu ar-lein.

Bu cynnydd anghyson gan bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned tuag at ffurfio cydweithrediadau mwy ar lefel ranbarthol. Yn ddiweddar, mae ychydig o bartneriaethau wedi ffurfioli cydweithrediadau newydd rhwng awdurdodau lleol a gyda phartneriaid sy'n golegau.

Mae effeithiau'r pandemig wedi cyflymu heriau o ran recriwtio staff yn y ddau sector. Mae llawer o golegau wedi adrodd am bryderon wrth recriwtio yn y meysydd cwricwlwm peirianneg, adeiladu, TG a chyfrifyddiaeth. Yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned, caiff llawer o bartneriaethau anawsterau yn recriwtio staff addysgu a staff gweinyddol i ymateb i'r swyddi gwag sy'n cael eu creu trwy weithlu sy'n heneiddio.

## Canfyuddiadau manwl

**Ymweliadau cyswllt addysg bellach:**

**Medi – Rhagfyr 2021**

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn wedi'i seilio ar ymweliadau ymgysylltu â 12 coleg addysg bellach rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2021. Yn ystod pob ymweliad, cynhaliwyd trafodaethau gydag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol, a gyda grwpiau bach o ddysgwyr, gan ddefnyddio cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyfarfodydd ar-lein. Y ffocws ar gyfer trafodaethau oedd effeithiau parhaus y pandemig ar dueddiadau cofrestru, cynnwys a chyflwyno'r cwricwlwm, a hefyd cynlluniau wrth gefn a chynlluniau strategol. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am y sefyllfa bresennol sy'n wynebu darparwyr, a bydd yn llywio ein hadolygiad thematig ar y cwricwlwm 16-19 hefyd.



## Cofrestru

Bu newidiadau sylweddol o ran niferoedd a phatrymau cofrestru ar draws y sector eleni. Rhagwelwyd llawer o'r rhain o ystyried y tarfu parhaus a achoswyd gan y pandemig COVID-19.

Bu gostyngiad yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cyrsiau amser llawn a rhan-amser ym mis Medi 2021 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn y rhan fwyaf o golegau. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf sydyn mewn cofrestriadau ar gyfer rhaglenni galwedigaethol, a bu patrwm nodedig o ddysgwyr sy'n gadael yr ysgol yn dewis astudio cyrsiau Safon Uwch yn hytrach na chyrsiau galwedigaethol lefel 3. Yn y colegau hynny sy'n cynnig darpariaeth Safon Uwch, bu'r gostyngiad mewn cofrestriadau amser llawn yn is, ac mewn ychydig o golegau, mae niferoedd uwch o ddysgwyr yn astudio cyrsiau Safon Uwch wedi gwrthbwyso'r cofrestriadau galwedigaethol is. Hefyd, adroddodd colegau am symudiad mewn cofrestriadau o gyrsiau galwedigaethol lefel is i gyrsiau lefel uwch, ac ym mwyafrif y colegau, mae hyn wedi cyd-fynd â mwy o ddysgwyr yn dechrau'r coleg gyda chymwysterau Saesneg a mathemateg TGAU gradd C neu'n uwch. Mae angen dosbarthiadau ailsefyll TGAU mewn Saesneg a mathemateg ar lai o ddysgwyr o gymharu â blynyddoedd blaenorol, er bod ychydig o golegau yn adrodd am dueddiadau tebyg i flynyddoedd blaenorol ym mhatrwm canlyniadau asesiadau cychwynnol llythrennedd a rhifedd WEST (Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru).

Mae colegau wedi adrodd am gynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n dewis dilyn prentisiaethau, yn enwedig mewn meysydd fel peirianneg ac adeiladu. Mae'r rhaglenni hyn ar gael yn ehangach erbyn hyn wrth i'r sectorau hyn o'r economi adfer o'r pandemig. Gallai hyn esbonio'r gostyngiad mewn cofrestriadau ar gyrsiau peirianneg a adroddwyd gan lawer o golegau. Mae cofrestriadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, busnes, teithio a thwristiaeth a chwaraeon wedi bod yn is nag yr oeddent mewn blynyddoedd blaenorol mewn llawer o golegau hefyd, tra bod cofrestriadau mewn cyrsiau gofal anifeiliaid a chyrsiau eraill y tir wedi cynyddu.

Mae arweinwyr colegau wedi dadansoddi eu patrymau cofrestru ac yn priodoli llawer o'r newidiadau i ffactorau allanol yn gysylltiedig â'r pandemig. Gwnaeth proses Graddau a Bennir gan Ganolfannau ar gyfer cyrsiau TGAU fwy o ymgeiswyr yn gymwys i wneud cais am raglenni Safon Uwch sy'n gofyn am gymwysterau lefel mynediad uwch yn draddodiadol, o gymharu â chymwysterau galwedigaethol amgen. Mewn ychydig o feysydd, dywedodd rheolwyr colegau fod y niferoedd mewn chweched dosbarth ysgolion lleol yn uchel gan fod dysgwyr wedi dewis aros ymlaen yn yr ysgol. Dywed lleiafrif o golegau fod marchnadoedd llafur lleol bywiog yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth medrau isel mewn meysydd fel lletygarwch a manwerthu, a allai fod wedi cyfrannu hefyd at gofrestriadau galwedigaethol a rhan-amser is na mewn blynyddoedd blaenorol.

Trwy ryddhau graddau TGAU yn gynnar, galluogwyd colegau i ddechrau cofrestru yn gynharach na mewn blynyddoedd blaenorol, ac i'r mwyafrif, gwnaed hyn ar-lein yn bennaf. Galluogodd hyn i golegau gynnig arweiniad ar addasrwydd cyrsiau, a darparu cymorth angenrheidiol ar gyfer y dysgwyr hynny y nodwyd bod angen cymorth arnynt cyn dechrau yn y coleg. Mewn ychydig iawn o achosion, roedd problemau â systemau cofrestru digidol a achosodd broblemau i ddysgwyr. Nodwyd y rhain yn gyflym, a chysylltwyd â dysgwyr drwy'r e-bost neu drwy eu ffonio a'u gwahodd i gofrestru ar safleoedd colegau. Parhaodd llawer o golegau i dderbyn

dysgwyr newydd tan hanner tymor mis Hydref, ac roedd gan ychydig ohonynt gynlluniau i dderbyn dysgwyr ym mis Ionawr.

Trwy gydol y flwyddyn academaidd ddiwethaf, cynhaliodd colegau'r rhan fwyaf o'u nosweithiau agored yn rhithwir, a dywedodd llawer ohonynt fod y gyfradd ymgysylltu yn is na'r arfer. Yn draddodiadol, mae'r nosweithiau hyn wedi galluogi staff arbenigol pynciau a dysgwyr presennol i gyfarfod ag ymgeiswyr i drafod eu darpariaeth ac arddangos eu cyfleusterau a'u hadnoddau. Mewn llawer o golegau, roedd llai o gyfleoedd na'r arfer i fynychu digwyddiadau agored ysgolion uwchradd a chynnal diwrnodau rhagflas ar y safle ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11. Trefnwyd bod gwybodaeth am gyrsiau a sesiynau rhagflas ar gael ar wefannau colegau, ond roedd nifer y dysgwyr yn ymgysylltu â'r rhain yn amrywiol, ac ym mwyafrif yr achosion, ni chafodd hyn ei fonitro. Mewn ychydig o golegau, gwahoddwyd dysgwyr i'r safle am gyfweliad i drafod eu cais.

## Pontio

Mae manteisio ar gyngor ac arweiniad diduedd am ddarpariaeth ôl-16 yn parhau i fod yn her ar draws y sector. Dywedodd y rhan fwyaf o ddysgwyr mai ychydig iawn o wybodaeth neu arweiniad roeddent wedi'i gael gan eu hysgolion, cynghorwyr gyrfaoedd neu staff colegau cyn gwneud cais i goleg. Roedd tua hanner ohonynt wedi cynnal eu gwaith ymchwil eu hunain, ac ychydig ohonynt wedi dewis astudio mewn coleg ar sail argymhellion gan ffrindiau a theulu. Teimlai ychydig o ddysgwyr fod y cyngor a roddwyd gan eu hysgolion wedi canolbwyntio'n bennaf ar eu hannog i symud ymlaen i chweched dosbarthiadau'r ysgolion eu hunain. Wedi i geisiadau gael eu gwneud, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn falch â'r ohebiaeth a gawsant gan golegau trwy gydol cyfnod yr haf. Dywedon nhw fod hyn wedi gwneud iddynt deimlo'n llai gorbryderus am ddechrau yn y coleg. Mewn rhai achosion, cafodd dysgwyr gyfle i siarad â staff arbenigol pynciau am eu dewisiadau yn ystod y cyfnod hwn.

Mae gallu cael at wybodaeth gefndir am ddysgwyr sydd wedi gwneud cais am goleg wedi bod yn anghyson ar draws y sector, ac mae ychydig o golegau wedi sôn am anawsterau yn cael gwybodaeth gan ysgolion, awdurdodau lleol ac asiantaethau allanol. Mewn ychydig o achosion, mae hyn wedi golygu bod dysgwyr wedi dechrau yn y coleg heb y cymorth roedd ei angen arnynt, a bu'n rhaid i golegau drefnu cymorth ôl-weithredol ar ôl siarad â dysgwyr yn uniongyrchol. Dywedwyd bod perthnasoedd gydag ysgolion uwchradd 11-16 yn gryfach, ac roedd hyn yn hwyluso rhannu gwybodaeth. Mae'r rhan fwyaf o golegau wedi defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru o dan Gynllun Adfer Covid-19 Adnewyddu a Diwygio i gynorthwyo dysgwyr i bontio i'r coleg.

I ddysgwyr ar raglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), dywedodd llawer o golegau eu bod yn rhannu gwybodaeth yn well. Mewn ychydig o achosion, mynychodd staff colegau gyfarfodydd rhithwir gyda Chydlynwyr ADY ysgolion trwy gydol y flwyddyn, ac adroddon nhw fod mwy o ymgysylltiad a phresenoldeb uwch o gymharu â'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb a gynhaliwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mewn tua hanner y colegau, mynychodd dysgwyr ag ADY a'r rhai y nodwyd eu bod yn fregus y coleg cyn mis Medi i gymryd rhan mewn gweithgareddau i'w paratoi ar gyfer y coleg. Roedd gweithgareddau'n cynnwys teithiau o gwmpas y coleg, cyfarfod â thiwtoriaid a staff cymorth, a dysgu am ble i brynu bwyd a sut i deithio i'r coleg.

## Ymsefydlu

Yn gyffredinol, mae trefniadau ar gyfer dechrau yn y coleg yn 2021 wedi dilyn dull hybrid ar gyfer bron pob coleg, gyda chyfuniad o weithgareddau ymsefydlu ar-lein ac wyneb yn wyneb. O ganlyniad i ryddhau graddau TGAU yn gynnar, digwyddodd y gweithgareddau hyn trwy gydol mis Gorffennaf a mis Awst. Croesawodd y rhan fwyaf o ddysgwyr y wybodaeth a gawsant ar-lein gan ei bod wedi eu galluogi i fynd at systemau TG y coleg a gwneud cais am fenthyciadau digidol, trefnu eu ceisiadau am gymorth ariannol a darganfod mwy am weithgareddau cyfoethogi'r coleg cyn dechrau eu cyrsiau. Roedd gan lawer o golegau adran benodedig ar ymsefydlu ar eu gwefan, sydd wedi bod yn hynod fuddiol ar gyfer y rhai sy'n ymuno'n hwyr.

Trefnodd y rhan fwyaf o golegau ddyddiadau dechrau amrywiol i reoli nifer y dysgwyr ar y campws, a lleihau gorbryder ar gyfer dysgwyr yn cyrraedd y coleg ar eu diwrnod cyntaf. Mae colegau wedi bod yn ystyriol fod niferoedd mwy o ddysgwyr yn dechrau'r coleg â gorbryder, ac wedi defnyddio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu adnoddau ychwanegol i gefnogi lles ac iechyd meddwl. Mae llawer o golegau wedi recriwtio mwy o staff lles ac wedi buddsoddi mewn datblygu ardaloedd lles dynodedig ar gyfer dysgwyr. Yn ystod y cyfnod ymsefydlu, cyflwynwyd dysgwyr i staff bugeiliol, a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt y byddent yn gwybod sut a ble i gael y cymorth hwn pe bai angen.

Roedd adborth gan ddysgwyr am y cyfnod ymsefydlu yn gymysg. Mynegodd bron pob un ohonynt fod yn well ganddynt fynychu'r coleg, ond eto, roedd eu profiadau ar eu diwrnod cyntaf yn amrywiol. Mewn llawer o achosion, roedd ymsefydlu'n broses swyddogaethol yn cynnwys rhoi gwybodaeth yn bennaf, ac roedd dysgwyr yn llai cadarnhaol am y profiadau hyn. Mewn ychydig o golegau, ble roedd y cyfnod ymsefydlu'n cael ei gynnal mewn ffordd yn fwy penodol i gyrsiau, roedd yr adborth yn fwy cadarnhaol. Croesawodd dysgwyr y cyfle i gyfarfod â'u cyfoedion a gwneud ffrindiau ar eu cyrsiau, cyfarfod â staff cymorth allweddol, a chymryd rhan mewn gweithgareddau oedd yn berthnasol i'w meysydd rhaglen.

I ddysgwyr ar raglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol, roedd trefniadau ymsefydlu wedi'u teilwra'n fwy i gefnogi eu hanghenion. Mewn llawer o achosion, cafodd y dysgwyr hyn eu blaenoriaethu ar gyfer mynychu wyneb yn wyneb. Mae ymsefydlu wedi cynnwys nifer o asiantaethau, ac mewn rhai achosion, mae rhieni wedi ymweld â'r coleg gyda dysgwyr i'w helpu i ymgynefino.

## Cynnwys y cwricwlwm

Yn dilyn y tarfu ar asesiadau allanol a chynnwys y cwricwlwm yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, croesawodd colegau'r ffaith fod gwybodaeth wedi cael ei chyhoeddi a'i rhyddhau'n gynnar ynghylch addasiadau i bynciau ar gyfer cyrsiau Safon Uwch. Mae addasiadau i raglenni dysgu galwedigaethol yn llai sicr, a dywed colegau eu bod yn cyflwyno manylebau llawn gyda mân ddiwygiadau sy'n effeithio ar elfennau ymarferol ar rai cyrsiau. Er enghraifft, mewn gwallt a harddwch, gall dysgwyr arddangos ar eu cyfoedion yn hytrach nag ar gleientiaid allanol. Mynegodd arweinwyr colegau bryderon am y diffyg arweiniad clir gan sefydliadau dyfarnu a'r anghysoneb rhwng addasiadau i raglenni academaidd a galwedigaethol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) yn gymysg ar draws y sector. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr Safon Uwch yn ei astudio ac eithrio'r

rhai sy'n dilyn pedwar cwrs Safon Uwch. Ar gyfer rhaglenni galwedigaethol, mae'r nifer sy'n dilyn CBC yn llai cyson ac yn amrywio ar draws meysydd y cwricwlwm yn y rhan fwyaf o golegau. Mae adborth gan ddysgwyr yn fwy cadarnhaol ble caiff CBC ei integreiddio yn y prif gymhwyster. Gwnaed rhai consesiynau i asesiadau'r her gymunedol eleni o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19 a ataliodd dysgwyr rhag cael lle mewn lleoliadau gwirfoddol, a chroesawodd colegau'r cyhoeddiad cynnar ynglŷn â'r newidiadau hyn.

Mae colegau'n defnyddio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddarparu mwy o oriau cwricwlwm. I'r rhan fwyaf, defnyddir hyn i ddatblygu medrau mewn llythrennedd a rhifedd. Dywedodd bron pob un o'r colegau fod niferoedd sylweddol o ddysgwyr yn cael trafferth â gofynion eu rhaglenni. Fodd bynnag, mewn ychydig o golegau, bu heriau o ran staffio'r oriau cwricwlwm ychwanegol hyn.

Mae llawer o ddysgwyr yn cydnabod bod sesiynau tiwtorial yn nodwedd gref o'u profiadau coleg, ac yn siarad yn ffafriol am y cymorth a gânt gan eu tiwtoriaid personol. Maent yn disgrifio eu tiwtoriaid personol fel pobl ofalgar a hawdd mynd atynt. Mae colegau wedi buddsoddi'n sylweddol mewn lles ac iechyd meddwl, yn cynnwys datblygu cynnwys ar gyfer rhaglenni tiwtorial, staff lles dynodedig a gofodau ffisegol. Ceir ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r materion a godwyd trwy blatfform 'Everyone's Invited', er bod llawer o golegau wedi cynnwys aflonyddu rhywiol a bwlio yn eu rhaglenni tiwtorial. Mae un coleg yn cynllunio hyfforddiant i staff ar y materion hyn.

Mae gweithgareddau cyfoethogi yn dychwelyd i'r cwricwlwm yn araf. Mae lleiafrif o golegau wedi cynnal ymweliadau lleol ac wedi cymryd rhan mewn cystadlaethau medrau. Mae mwyafrif ohonynt wedi gwahodd siaradwyr gwadd i annerch dysgwyr o bell.

### Cyflwyno'r cwricwlwm

Ers dechrau'r flwyddyn academaidd, mae colegau wedi symud y rhan fwyaf o'u darpariaeth i gyflwyno ar y safle. Dyma oedd y dewis clir i'r rhan fwyaf o ddysgwyr a staff. Mae ansicrwydd parhaus y pandemig, a newidiadau i ganllawiau lleol a chenedlaethol wedi dylanwadu ar ddulliau cyflwyno, ac mae colegau wedi addasu'n gyflym i weithgareddau dysgu o bell yn llawn neu'n rhannol pan fu angen gwneud hynny. Mae colegau wedi cadw elfennau o gyflwyno cyfunol i ddarparu ar gyfer staff a dysgwyr y mae'n ofynnol iddynt hunanynysu, ac mewn ychydig o golegau, i leihau'r cymysgu rhwng dysgwyr y tu allan i'w prif grwpiau cymhwyster. Er enghraifft, mae ychydig o golegau yn cyflwyno wyneb yn wyneb ar gyfer pynciau Safon Uwch, ond eto, caiff CBC a sesiynau tiwtorial eu cyflwyno o bell. Mae ychydig o golegau wedi crybwyll enghreifftiau ble mae dull cyfunol wedi bod yn fuddiol i ddysgwyr. Er enghraifft, dywedodd un coleg fod mwy o ymgysylltiad gan ddysgwyr mewn dosbarthiadau Saesneg TGAU a gynhelir o bell. Mae gan bron pob coleg resymeg glir ar gyfer y dull hybrid, er na chaiff hyn ei gyfleu'n ddigon clir i'r dysgwyr mewn ychydig o achosion.

Mae colegau wedi gwneud penderfyniadau i flaenoriaethu presenoldeb ar safleoedd ar gyfer rhai grwpiau. Yn y rhan fwyaf o golegau, mae dysgwyr bregus, y rhai ar raglenni Sgiliau Byw'n Annibynnol a'r rhai ar gyrsiau lefel 1 a lefel 2 yn mynychu ar gyfer bron eu holl ddysgu. Cafodd sesiynau ymarferol ar gyrsiau galwedigaethol eu dechrau'n ddwys o fis Medi pan oedd llai o gyfyngiadau'r pandemig. Rhoddwyd

blaenoriaeth i gyrsiau ble roedd asesiadau ymarferol yn hanfodol i ddysgwyr ennill cymwysterau ar gyfer eu trwydded i ymarfer. Pan gyflwynir sesiynau ar-lein, mae llawer o golegau'n darparu cyfleuster i ddysgwyr bregus fynychu'r coleg i gymryd rhan yn y sesiynau o safle'r coleg ble mae staff ar gael i'w cynorthwyo.

Mae'r cydbwysedd rhwng cyflwyno ar y safle a chyflwyno o bell yn amrywio ar draws y sector, ac mae colegau'n ymateb yn hyblyg ac yn addasu amserlenni yn sgil achosion lleol o COVID-19 ac anghenion y dysgwyr. Mae rheolwyr yn deall bod yn well gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddychwelyd i ddysgu llawn wyneb yn wyneb, ond maent wedi bod yn ystyriol o'r angen i gadw rhywfaint o gyflwyno o bell wrth ragweld cyfnodau clo yn y dyfodol.

## Asesu

Ymatebodd colegau'n dda i'r heriau a gafwyd yn sgil canslo arholiadau allanol yr haf y llynedd, gan ddefnyddio eu harbenigedd a'u profiadau o brosesau addysg uwch a galwedigaethol ar gyfer safoni a chymedroli. Soniodd bron pob un ohonynt am systemau trylwyr a thryloyw a roddwyd ar waith ar gyfer y broses Graddau a Bennir gan Ganolfannau mewn Safon Uwch a Graddau wedi'u Hasesu gan Athrawon ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Cydweithiodd tua hanner ohonynt â cholegau eraill i sicrhau cysondeb ar draws y sector. O ganlyniad i hyn, cafodd apeliadau graddau gan ddysgwyr eu rheoli'n dda, a chyfran fach iawn o raddau yn unig a newidiwyd gan sefydliadau dyfarnu. Mae rhai elfennau o'r prosesau hyn wedi cael eu cadw'n arfer dda. Er bod colegau wedi cydweithio â cholegau eraill ar gyfer prosesau cymedroli, prin oedd y cyfleoedd i wneud yr un fath gydag ysgolion uwchradd yn eu hardaloedd lleol. Mynegodd colegau rwystredigaeth am y diffyg gwybodaeth gan rai sefydliadau dyfarnu, ac amseroldeb y wybodaeth a gafwyd y llynedd, a roddodd bwysau gormodol ar staff a dysgwyr, yn eu barn nhw.

Dywedodd tua hanner y colegau fod ôl-groniad o asesiadau ymarferol o'r llynedd, ac mewn ychydig iawn o achosion o 2019, ar gyfer cyrsiau gofal plant ac iechyd a gofal cymdeithasol. Mewn ychydig o ardaloedd, nid yw awdurdodau lleol yn caniatáu lleoliadau mewn meithrinfeydd o hyd, ac ni chaniateir i ddysgwyr fynd i leoliadau clinigol o hyd, fel cartrefi gofal ac ysbytai. O ganlyniad, nid yw rhai dysgwyr wedi gallu cwblhau eu cwrs, ac ennill trwydded i ymarfer. Mae colegau'n gweithio'n galed i ddod o hyd i leoliadau, ac wedi blaenoriaethu carfannau blaenorol. Fodd bynnag, mae hyn yn cael effaith ar ddysgwyr presennol mewn lleiafrif o golegau.

Mae colegau'n cynllunio eu hasesiadau a'u cwricwlwm wrth ragweld y bydd arholiadau allanol yn dychwelyd, tra'n cynnal cynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd mwy o darfu. Mae llawer ohonynt yn cynyddu amlder asesiadau mewnol ffurfiol ac yn sicrhau bod cynnydd dysgwyr yn cael ei fonitro. Dywed llawer o ddysgwyr eu bod yn teimlo'n orbryderus am yr ansicrwydd ynglŷn â'r ffordd y gallent gael eu hasesu, ond eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth a roddwyd ar waith gan eu hathrawon i ddatblygu eu medrau arholi. Mynegodd ychydig o ddysgwyr bryder gan eu bod yn ansicr ynglŷn â pha asesiadau mewnol fyddai'n cael eu cynnwys ar gyfer graddio terfynol pe bai Graddau a Bennir gan Ganolfannau yn cael eu defnyddio fel y prif asesiad. Mynegodd ychydig iawn o ddysgwyr bryder y byddent yn teimlo'n llai parod ar gyfer addysg uwch pe bai arholiadau allanol yn cael eu canslo eto.

## Cynlluniau strategol

Mae gan uwch arweinwyr strategaethau clir ar gyfer gwella gyda ffocws ar fodloni anghenion dysgwyr, eu heconomi leol a rhanddeiliaid ehangach. Cydnabyddir bod angen gwella addysgu a dysgu yn barhaus yn y rhan fwyaf o golegau. Mae bron pob un o'r colegau wedi rhoi mwy o amlygrwydd i les staff a materion amgylcheddol. Mae llawer ohonynt wedi buddsoddi'n sylweddol mewn adeiladau, adnoddau ffisegol a staffio trwy ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru, cronfeydd wrth gefn a benthyciadau masnachol i ddatblygu adeiladau a chyfleusterau. Defnyddir gwybodaeth am y farchnad lafur a pherthnasoedd gyda phartneriaid i ddatblygu darpariaeth. Mae enghreifftiau o ddatblygiadau'n cynnwys rhaglenni mewn peirianneg ar gyfer y sectorau awyrofod ac amaethyddol, a chyrsiau ar gyfer cadetiaid nyrsio mewn cydweithrediad â bwrdd iechyd lleol.

## Cynlluniau wrth gefn

Mae colegau'n rhagweld y bydd cyflwyno hybrid ac elfennau o weithio o gartref yn parhau am gryn amser, ac wedi datblygu asesiadau risg a chynlluniau wrth gefn sy'n hyblyg i ganiatáu ar gyfer newid cyfeiriad y pandemig, a chyngor a chanllawiau swyddogol. Lle bu modd, maent wedi gwrando ar ddewis dysgwyr ar gyfer cyflwyno ar y safle, ond eto wedi parhau'n ofalus, ac maent yn ymwybodol o risgiau caniatáu mwy o ddysgwyr ar safle'r coleg. Ar adeg yr ymweliadau ymgysylltu, roedd llawer o golegau wedi llacio rhai rheolau ar symud o gwmpas y safle a chadw pellter cymdeithasol, ond wedi parhau i'w gwneud yn orfodol gwisgo mwgwd mewn ardaloedd cymunol. Maent wedi cywasgu amserlenni ac wedi cadw elfennau o gyflwyno ar-lein i leihau cymysgu rhwng grwpiau dysgwyr. Roedd gan y rhan fwyaf o golegau ddigonedd o gyflenwadau o hylif diheintio dwylo a mygydau, ond mewn lleiafrif o golegau, nid oedd dysgwyr nad oeddent yn gwisgo mygydau yn cael eu herio gan staff. Erbyn ymweliadau diweddarach, roedd canllawiau swyddogol wedi newid, a daeth gwisgo mygydau yn orfodol eto mewn ystafelloedd dosbarth. Ymatebodd colegau'n gyflym i'r cyngor hwn, gan gysylltu â dysgwyr trwy negeseuon testun a negeseuon e-bost, a chael mwy o staff i batrolio ardaloedd cymunol a phrif fynedfeydd. Mewn ychydig iawn o golegau, roedd awyru'n wael, a phrin oedd yr ystafelloedd dosbarth â ffenestri ar agor. Dywed bron pob un o'r dysgwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y coleg.

Dywedodd colegau fod heriau parhaus yn sgil mynychder dysgwyr a staff â phryderon iechyd meddwl. Mae bron pob coleg wedi buddsoddi'n helaeth mewn mesurau lles, fel penodi staff cymorth ychwanegol a darparu hyfforddiant ychwanegol ers dechrau'r pandemig trwy ddefnyddio cyllid o Gynllun Adfer Covid-19 Adnewyddu a Diwygio Llywodraeth Cymru. Mynegodd ychydig o arweinwyr colegau bryderon am gynaliadwyedd eu mentrau i gynorthwyo staff a dysgwyr ar ôl i'r cyllid ddod i ben. Mewn ychydig o golegau, soniodd arweinwyr eu bod wedi cael anawsterau'n recriwtio staff cymorth bugeiliol ac academaidd, yn enwedig ble mae llawer o swyddi'n cael eu hysbysebu fel contractau cyfnod penodol.

## Staffio a datblygiad proffesiynol

Mae effeithiau'r pandemig wedi cyflymu'r heriau recriwtio yr oedd llawer o golegau eisoes yn eu hwynebu. Mewn tua hanner y colegau, mae arweinwyr wedi dweud y bu mwy o geisiadau gan staff i ymddeol yn gynnar a gweithio'n hyblyg, ac mae gan lawer o golegau weithlu sy'n heneiddio. Bu recriwtio'n anoddaf ar gyfer staff academaidd mewn meysydd cwricwlwm fel peirianneg, adeiladu, TG a

chyfrifyddiaeth. Mae hyn yn waeth mewn colegau sydd wedi'u lleoli yng ngorllewin a de orllewin y wlad. Hefyd, adroddodd ychydig o golegau am heriau wrth recriwtio staff i rolau cymorth a gweinyddu. Mae un coleg yn hysbysebu 90 o swyddi gwag ar hyn o bryd. Mynegodd bron pob un ohonynt anawsterau yn recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg. Maent yn priodoli'r heriau i'r cymhellion ariannol i weithio yn y sector preifat, yn enwedig ar gyfer adeiladu, TG a pheirianneg ble mae'r tâl yn aml yn uwch o lawer nag y mae ar gyfer staff mewn colegau. Yn ychwanegol, caiff llawer o'r rolau eu hysbysebu fel contractau cyfnod penodol, o ganlyniad i ddefnyddio'r cyllid grant Adnewyddu a Diwygio, sydd wedi arwain at gyfraddau ymateb is. Mewn ychydig o golegau, mae staff presennol yn gweithio goramser i gyflenwi mewn dosbarthiadau. Mae un coleg yn gwella medrau staff cymorth a thechnegwyr presennol trwy ariannu cyrsiau addysg uwch a TAR, tra bod coleg arall wedi cysylltu â chyn-ddysgwyr sydd wedi graddio'n ddiweddar i'w denu i addysgu trwy gynnig oriau lleoliad a chyllid tuag at gymhwyster addysgu iddynt.

Mae gan uwch arweinwyr ffocws clir i gynorthwyo staff i ddatblygu capasiti. Mae gan bron pob un ohonynt raglenni ar gyfer darpar arweinwyr a rheolwyr y maent yn eu datblygu'n fewnol yn bennaf, ac mewn ychydig o golegau, gall cyfranogwyr ennill cymwysterau arweinyddiaeth a rheolaeth achrededig. Mae'r rhain wedi bod yn boblogaidd ac mae gormod o alw amdanynt yn aml. Mae gan leiafrif o golegau wahanol lwybrau cynnydd ar gael, fel profiadau yn gysylltiedig â diwydiant neu ymchwil broffesiynol, er enghraifft trwy ariannu lleoliadau gwaith i wella medrau athrawon mewn addysg iechyd, a chaniatáu amser i staff gynnal ymholiadau ymchwil yn eu sectorau dewisol.

Mae hyfforddiant staff wedi symud i ffwrdd o ganolbwyntio ar ddatblygu offer digidol, a oedd yn angenrheidiol ar ddechrau'r pandemig, tuag at gynorthwyo staff â'u hiechyd meddwl a'u lles eu hunain, a strategaethau i wella addysgu a dysgu. Mae llawer o golegau wedi bod nodi mwy o gydweithio rhwng staff wedi'i hwyluso gan ymgyfarwyddo â phlatfformau digidol ble gallant rannu gwybodaeth ac adnoddau. Er enghraifft, mewn colegau sydd â nifer o gampysau, mae staff wedi rhannu adnoddau addysgu a chymedroli gwaith dysgwyr ar-lein. Mewn ychydig o golegau, mae dyluniadau adeiladau modern a chyfleusterau newydd wedi gwella cyfleoedd i staff gydweithio. Dywed ychydig o golegau eu bod wedi cryfhau cysylltiadau â cholegau cyfagos trwy rwydweithiau dysgu proffesiynol. Mae un coleg wedi bod yn datblygu darpariaeth ar gyfer yr Economi Werdd mewn cydweithrediad â darparwr ynni o fri, tra bod colegau eraill wedi gweithio gyda'i gilydd ochr yn ochr â phrifysgol leol a'u bwrdd iechyd rhanbarthol i ddatblygu cyrsiau newydd ym maes mynediad at nyrsio.

## Ymweliadau cyswllt a galwadau ar-lein partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned: Hydref – Rhagfyr 2021

Cynhaliwyd yr ymweliadau ymgysylltu hyn trwy gyfuniad o weithgareddau ar-lein a gweithgareddau wyneb yn wyneb. At ei gilydd, ymwelwyd ag un ar ddeg o bartneriaethau ac Addysg Oedolion Cymru yn y cyfnod rhwng mis Hydref a dechrau mis Rhagfyr 2021. Dim ond tuag at ddiwedd y cyfnod hwn yr ymddangosodd amrywiolyn Omicron yng Nghymru, ac nid oedd cyfyngiadau uwch ar waith eto.

Cyflwynir darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned gan 13 o bartneriaethau ledled Cymru ac Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales. Mae aelodaeth y partneriaethau'n wahanol o ardal i ardal, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys darpariaeth a gynigir gan yr awdurdod lleol, coleg addysg bellach, Addysg Oedolion Cymru a sefydliadau gwirfoddol lleol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r sector wedi canolbwyntio ei ddarpariaeth a ariennir ar gyrsiau ar gyfer oedolion i wella eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol, a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE). Hefyd, mae partneriaethau'n darparu nifer fach o raglenni hamdden ac adloniadol ar gyfer diddordeb personol, lles, a chynhwysiant, fel dosbarthiadau ioga, crefft gwnïo neu hanes lleol. Mewn llawer o achosion, mae partneriaethau'n cefnogi grwpiau neu glybiau gwirfoddol i gynnal eu darpariaeth hamdden a lles eu hunain, trwy ddarparu lleoliadau neu hysbysebu dosbarthiadau.



## Cofrestru ac ailagor canolfannau

Dywed bron pob un o’r darparwyr fod cynnydd mewn cofrestriadau o gymharu â’r flwyddyn academaidd ddiwethaf (2020-2021). Fodd bynnag, dywed y rhan fwyaf o ddarparwyr fod llai o gofrestriadau ar gyfer y cyfnod hwn o dymor yr hydref na’u patrymau nodweddiadol cyn y pandemig.

Mae cryn amrywiad ar draws y sector o ran ailagor canolfannau ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb. Mae hyn yn amrywio o bartneriaethau ble mae bron pob canolfan ar agor ac yn gweithredu gyda mesurau lliniaru diogelwch COVID-19, i un ganolfan yn unig sydd ar agor ar gyfer cyflwyno wyneb yn wyneb, mewn ychydig iawn o achosion.

Yn gyffredinol, mae partneriaethau wedi’i gweld yn symlach dychwelyd at ddysgu wyneb yn wyneb mewn lleoliadau sydd dan eu rheolaeth nhw, fel canolfannau dysgu a berchnogir gan gynghorau neu safleoedd colegau. Mae hyn oherwydd y gallant gynnal asesiadau risg a rhoi mesurau lliniaru diogelwch COVID-19 ar waith. Dywed partneriaethau eu bod wedi cael mwy o anhawster yn ailagor darpariaeth wyneb yn wyneb ble maent yn defnyddio lleoliadau a berchnogir gan drydydd partïon, fel canolfannau cymunedol. Mae ychydig iawn o bartneriaethau wedi agor nifer gyfyngedig iawn yn unig o ganolfannau dysgu er mwyn cyflwyno elfennau ymarferol dosbarthiadau na ellir eu cyflwyno ar-lein, er enghraifft hyfforddiant cymorth cyntaf lle ceir elfen ymarferol i’r asesiad.

Mae pob un o’r partneriaethau’n cynnig rhywfaint o’u darpariaeth ar-lein. Mae cyfran y cyflwyno ar-lein yn amrywio rhwng partneriaethau, o gyflwyno tua chwarter y ddarpariaeth ar-lein, i gyflwyno bron yr holl ddarpariaeth ar-lein, mewn ychydig iawn o achosion. Mae llawer o bartneriaethau’n defnyddio dulliau cyflwyno cyfunol hefyd, ble mae dysgwyr yn mynychu dosbarthiadau wyneb yn wyneb a dosbarthiadau ar-lein. Pan ddefnyddir dulliau dysgu cyfunol, dywed y rhan fwyaf o ddarparwyr eu bod yn defnyddio sesiynau wyneb yn wyneb i gychwyn rhaglenni a chyrsiau ar y trywydd cywir, cyflwyno dysgwyr i’w gilydd a’u tiwtoriaid, a sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar y medrau angenrheidiol a bod ganddynt offer TG addas i ymgymryd â’u sesiynau dysgu ar-lein.

Mae hyfforddi athrawon mewn addysgeg ar-lein a datblygu’r seilwaith ar gyfer dysgu ar-lein yn parhau’n flaenoriaeth ar gyfer rhaglenni dysgu proffesiynol bron pob partneriaeth. Dywed partneriaethau eu bod wedi elwa ar y cymorth a ddarperir gan eu staff eu hunain, a gafodd hyfforddiant addysgeg ddigidol arbenigol yn ystod y pandemig, sy’n fentoriaid ar gyfer eu cymheiriaid erbyn hyn.

Siaradom â dysgwyr yn ystod ein hymweliadau ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ar-lein. Roedd bron pob un o’r dysgwyr a oedd wedi dychwelyd i ddysgu yn yr ystafell ddosbarth yn falch o fod yn ôl mewn amgylchedd dysgu ystafell ddosbarth, ac yn gwerthfawrogi’r rhyngweithio cymdeithasol gyda chyd-ddysgwyr a’u tiwtoriaid. Dywed darparwyr eu bod wedi ymdrechu’n sylweddol i sicrhau bod dysgwyr yn teimlo’n ddiogel wrth iddynt ddychwelyd i ganolfannau, ac esbonio’r gweithdrefnau a’r mesurau lliniaru diogelwch COVID-19 y maent wedi eu rhoi ar waith. Mae’r rhain yn cynnwys systemau unffordd, gorsafoedd hylif diheintio dwylo a mygydau, mwy o awyru, cadw pellter cymdeithasol mewn ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd cymunol, llai o ddysgwyr mewn ystafelloedd dosbarth a chanolfannau dysgu, gwisgo mygydau mewn ystafelloedd dosbarth neu ardaloedd cymunol, rhwystrau ffisegol fel sgriniau

plastig clir mewn derbynfeydd, a gorsafoedd addysgu dynodedig mewn ystafelloedd dosbarth.

## Darpariaeth a chyflwyno

Mae bron pob un o'r partneriaethau yn adolygu, neu'n dechrau adolygu, cynnig eu darpariaeth yn sgil y pandemig, ac o ganlyniad i'r newidiadau yng nghyllid Llywodraeth Cymru. Mewn rhai achosion, mae partneriaethau'n bwriadu ehangu nifer y cyrsiau y maent yn eu cynnig i ymateb i fwy o gyllid. I'r gwrthwyneb, mae rhai partneriaethau'n ystyried sut gallant leihau costau, neu leihau maint y ddarpariaeth i ymateb i lai o gyllid, os bydd angen.

Mae'r galw am wahanol fathau o gyrsiau yn amrywiol ledled Cymru, gan adlewyrchu gwahanol anghenion meysydd y bartneriaeth. Er enghraifft, dywed ychydig o bartneriaethau fod galw cryf gan ddysgwyr am gyrsiau TG, tra bod partneriaethau eraill yn dweud bod y galw am gyrsiau TG, yn enwedig cyrsiau lefel is, yn llai o lawer. Dywed llawer o bartneriaethau fod cynnydd yn y galw am ddosbarthiadau iechyd a lles, ac am ddosbarthiadau mewn Iaith Arwyddion Prydain.

Ledled Cymru, mae amrywiad sylweddol rhwng partneriaethau o ran ehangder y ddarpariaeth a gynigir ganddynt. Mae'r holl bartneriaethau'n cynnig darpariaeth 'graidd' medrau hanfodol oedolion (datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TG) a medrau ar gyfer cyflogadwyedd (fel ysgrifennu CV). Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dosbarthiadau iechyd a lles, fel ioga, neu gelf neu ysgrifennu creadigol, yn amrywiol, yn dibynnu ar y bartneriaeth.

Yn ystod y pandemig, ychydig iawn o ddarpariaeth a gynigiwyd ar gyfer dysgu teuluol. Yn aml, mae dysgu teuluol yn digwydd mewn ysgolion ac yn darparu cyfleoedd i rieni wella eu medrau llythrennedd, rhifedd a TG eu hunain, law yn llaw â'u plant. Yn ystod cyfnodau o gau ysgolion a chyfyngiadau parhaus ar oedolion nad oeddent yn hanfodol yn mynd i mewn i ysgolion, nid oedd yn bosibl cynnal y ddarpariaeth hon. Yn ystod tymor yr hydref 2021, dechreuodd tua hanner y partneriaethau sy'n cynnig dysgu teuluol ailsefydlu'r ddarpariaeth hon, mewn ychydig o ysgolion i ddechrau. Nid yw ychydig o bartneriaethau yn cynnig darpariaeth dysgu teuluol.

Mae llawer o bartneriaethau'n hwyluso ystod o gyrsiau adfer costau, nad ydynt yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyrsiau hyn yn darparu dewis ehangach o weithgareddau ar gyfer eu cymunedau, fel garddio, Iaith Arwyddion Prydain, ieithoedd tramor modern, adfer dodrefn, ffotograffiaeth neu grochenwaith. Parhaodd llawer o'r cyrsiau hyn yn ystod tymor yr hydref.

Mae patrwm cyflwyno Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) yn amrywiol ar draws partneriaethau hefyd. Ym mwyafrif y partneriaethau, cyflwynir SSIE gan bartner y coleg, fel arfer ar un o'i gampysau. Yn gyffredinol, ariennir y ddarpariaeth hon trwy gyllideb gweithgarwch rhan-amser y coleg. Mewn ychydig o achosion, nid yw partneriaid y coleg a'r awdurdod lleol yn cydweithio'n effeithiol i farchnata a rhoi cyhoeddusrwydd i ddarpariaeth SSIE fel rhan o gynnig dysgu oedolion yn y gymuned eu partneriaeth.

Mewn ychydig o bartneriaethau, mae'r awdurdod lleol yn cyflwyno'r ddarpariaeth SSIE. Mewn ychydig iawn o bartneriaethau, ychydig iawn o ddarpariaeth SSIE a gynigir ar draws ardal gymunedol y bartneriaeth.

## Ad-drefnu a phartneriaethau

Dros y blynyddoedd diwethaf, polisi Llywodraeth Cymru fu annog partneriaethau i ffurfio cydweithrediadau mwy ar lefel ranbarthol. At ei gilydd, mae cynnydd tuag at y nod hwn wedi bod yn anghyson. Yn ddiweddar, mae ychydig o bartneriaethau wedi ffurfioli cydweithrediadau newydd rhwng awdurdodau lleol a gyda phartneriaid sy'n golegau.

Mewn ychydig o ardaloedd, mae cynnydd tuag at gydweithrediadau rhanbarthol ffurfiol wedi bod yn araf. Fodd bynnag, mae partneriaethau wedi cydweithio'n anffurfiol yn ystod y pandemig i gynnig am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, a'i rannu, er enghraifft ar gyfer dysgu proffesiynol mewn medrau addysgu digidol a hyfforddiant iechyd meddwl.

Mewn ychydig o bartneriaethau, mae'r rolau a'r cyfrifoldebau rhwng darparwyr yn y bartneriaeth yn glir, ac mae perthnasoedd gweithio yn gryf. Mae darparwyr yn cynllunio llwybrau cynnydd ar gyfer dysgwyr yn effeithiol, ac yn mapio eu darpariaeth ar draws ardal y bartneriaeth i leihau dyblygu.

Fodd bynnag, mewn ychydig o bartneriaethau, ni chaiff perthnasoedd rhwng darparwyr eu ffurfioli'n glir, ac maent yn dibynnu gormod ar gysylltiadau proffesiynol personol rhwng staff allweddol.

Mae llawer o bartneriaethau'n adrodd am bryderon â recriwtio staff addysgu a staff gweinyddol i ymateb i'r swyddi gwag sy'n cael eu creu trwy weithlu sy'n heneiddio. Dywed partneriaethau fod natur y gwaith, sy'n aml yn rhan-amser, a chystadleuaeth gynyddol gan ddarparwyr dysgu oedolion preifat, yn rhesymau posibl am yr heriau mewn recriwtio.